



ENTRE**COMP**EDU

Modiwl 3:

Mynd yn Ddyfnach 3.5 Camau

Dysgu Cydweithredol



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union



EntreCompEdu is co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union. The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

Cynnwys

Mynd yn Ddyfnach 3.5

Camau dysgu cydweithredol..... Error! Bookmark not defined.



Camau dysgu cydweithredol

Awgryma hen ddihareb o Affrica: os ydych am fynd yn gyflym, ewch ar eich pen eich hun. Os ydych am fynd ymhell, ewch gyda'ch gilydd.¹ Mae'r cwestiwn ynghylch a ydych yn fwy cynhyrchiol yn gweithio ar eich pen eich hun neu mewn grŵp wedi cael ei drafod ers tro. Mae unigolion mewnblyg ac allblyg yn debygol o gynnig atebion gwahanol.² Ond mae'r mwyafrif helaeth o syniadau da sy'n arwain at arloesedd yn cynnwys llawer o bobl yn gweithio gyda'i gilydd. Mae astudiaethau o'r datblygiadau mwyaf radical – gan gynnwys y teledu, awyrennau, radio, e-bost, a hyd yn oed gemau bwrdd fel Monopoli – yn dangos eu bod wedi deillio o gydweithio.³ A hyd yn oed pan ddaw syniad i feddwl unigolyn, ymdrech ar y cyd yw'r broses o roi syniadau ar waith bron bob tro. Isaac Newton (1676) a lefarodd y geiriau enwog: Os gwelais ymhellach na rhai, yna gwnes hynny trwy sefyll ar ysgwyddau cewri.

Er bod gweithio'n dda gydag eraill yn cael ei gydnabod yn eang yn gymhwysedd entrepreneuriaidd pwysig, sut ydych chi'n cefnogi ei ddatblygiad ymhlith myfyrwyr? Dros hanner can mlynedd yn ôl, cyflwynodd y seicolegydd, Bruce Tuckman (1965), ddamcaniaeth a oedd yn ceisio egluro gwahanol gamau datblygu tîm (Ffigur 3.5.1). Er bod y ddamcaniaeth hon yn canolbwyntio ar sefydliadau busnes, mae'n werth ystyried sut y mae'n berthnasol mewn addysg.

1 Dyfynnwyd gan Hemming, H. (2011) Together, John Murray, p.63.

2 Er enghraifft, mae Quiet gan Susan Cain (2012) yn wrthddadl gref i'r rhai sy'n rhoi pwyslais ar gydweithio yn sail i feddwl yn greadigol. Roedd Cain ei hun yn blentyn swil, ac mae'n dadlau nad ydym yn rhoi gwerth ar wneud amser i fod ar ein pen ein hun i fyfyrion dawel ac i fod yn greadigol.

3 Sawyer, K. (2007) Group Genius: The Creative Power of Collaboration, Jossey Bass.



Camau datblygu tîm

Ffurio – pan fydd y tîm yn cwrdd am y tro cyntaf, yn cytuno ar nodau ac yn dechrau datblygu ymddiriedaeth


Stormio – pan ddaw gwahaniaeth barn i'r amlwg, a phroblemau o ran grym/rheolaeth

Normio – pan fydd aelodau'n cytuno ar rolau a chyfrifoldebau, gan feithrin consensws

Perfformio – pan sefydlir ymddiriedaeth, mae unigolion y tîm yn edrych ar ôl ei gilydd ac mae'r gwaith yn ei anterth

Gohirio – pan fydd y tîm yn asesu cynnydd a chyfraniadau
Adjourning - when the team assesses progress and contributions.⁴

Weithiau cyfeirir at y cam olaf fel y cam 'galaru'.



Ffigur 3.5.1 Taith gyffredin o'r cam Ffurio i'r cam Gohirio

⁴ Tuckman, B. W. (1965). 'Developmental sequence in small groups'. Psychological Bulletin, 63(6), 384-399.



Cynigia Prifysgol Glasgow gyngor ar sut i gefnogi myfyrwyr wrth iddynt symud trwy'r camau datblygu tîm (Ffigur 3.5.2):

Ffurio i Stormio	Stormio i Normio	Normio i Berfformio
<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu a chyfathrebu pwrpas y tîm – y genhadaeth • Gosod nodau • Nodi rolau o fewn y tîm • Sefydlu ffyrdd o ennyn ymddiriedaeth o fewn y tîm • Mae angen i'r arweinydd roi cyfarwyddiadau yn ystod y cam hwn, gan ddangos eu hawdurdod • Dod â'r tîm ynghyd yn rheolaidd er mwyn gweithio ar brosiectau ar y cyd 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i'r arweinydd osod disgwyliadau i'r tîm, a dylai ddisgwyl canlyniadau ganddynt • Dylai'r arweinydd gefnogi ymddygiad cadarnhaol • Dylai arweinydd y tîm greu amgylchedd gwaith cadarnhaol • Dylid adnabod a dathlu cyraeddiadau • Mae aelodau'r tîm yn parchu ac yn gwrandao ar ei gilydd • Mae aelodau'r tîm yn cydnabod rolau ac arbenigedd yr aelodau gwahanol • Mae pawb yn gweithio tuag at greu amgylchedd cefnogol • Gofynnir am adborth, fe'i rhoir, a gweithredir arno 	<ul style="list-style-type: none"> • Canmol ei gilydd • Rhannu cyfrifoldebau • Dirprwyo yn rhwydd o fewn y tîm • Cyfathrebu a diweddarau pob aelod o'r tîm • Rhannu llwyddiant • Neilltuo amser i'r tîm • Gwerthuso eu perfformiad, ac anelu at gyrraedd amcanion mwy heriol • Rhannu arweinyddiaeth yn seiliedig ar gyfuniad sgiliau unigol • Yn dethol yn ofalus wrth recriwtio aelodau newydd i'r tîm • Yn gweithio i gynnal ysbryd y tîm

Ffigur 3.5.2 Camau yn natblygiad cydweithredu

Mae'n bur debygol y byddwch yn dod ar draws ystod o wahanol ymddygiadau sy'n atal gwaith grŵp effeithiol. Mae Tabl 3.5.1 yn cynnig rhai awgrymiadau ar sut i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf cyffredin, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r hwyluswyr.



Her	Atebion posibl
Nid yw'r myfyrwyr yn cymryd rhan	<ul style="list-style-type: none"> • Atgoffwch y grŵp cyfan o fanteision fod pawb yn cyfrannu mewn modd cyfartal. • Eglurwch y briff dysgu grŵp. • Ystyriwch egluro ymhellach y broses o asesu cyfranogiad i waith y grŵp. • Wlyneb wch yr un sy'n pallu cymryd rhan yn uniongyrchol. • Ceisiwch ddarganfod a oes rheswm da dros beidio â chymryd rhan. • Ymchwiliwch a allai peidio â chymryd rhan fod yn arwydd fod rhywbeth yn eu poeni. • Gwiriwch, gyda gofal, a yw'r broblem yn ymwneud â'r gwaith yn hytrach nag â'r grŵp. • Gwiriwch a allai peidio â chymryd rhan fod yn adwaith yn erbyn yr hwylusydd.
Myfyriwr yn gormesu'r grŵp	<ul style="list-style-type: none"> • Mynnwch air gyda'r un sy'n gormesu, yn dawel bach. • Gofynnwch i'r grŵp cyfan adolygu'r broses. • Ceisiwch sylwi pam y mae pobl yn dominyddu.
Yr Hwylusydd yn rhoi gormod o bwyslais ar orchmynion neu reoli	<ul style="list-style-type: none"> • Peidiwch â cheisio brysio dysgu grŵp yn ormodol. • Cuddiwch eich gwybodaeth a'ch doethineb weithiau. • Caniatewch i fyfyrwyr y grŵp ddysgu o'u camgymeriadau. • Cynlluniwch brosesau yn hytrach na chanlyniadau. • Gofynnwch i'ch myfyrwyr. • Dysgu gan gydweithwyr dethol.
	<ul style="list-style-type: none"> • Darllenwch amdano. • Gwyliwch hwyluswyr dysgu grŵp eraill, gyda'r agenda hwn mewn cof. • Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau. • Siaradwch ag aelodau'r grŵp yn unigol. • Holwch yn uniongyrchol weithiau.
Yr Hwylusydd yn dangos diffyg sensitifrwydd diwylliannol	<ul style="list-style-type: none"> • Atgoffwch eich hun fod y rhan fwyaf o ddysgu'n digwydd trwy wneud, yn hytrach na gwrando. • Peidiwch â gadael i chi eich hun fod eisiau llenwi pob adeg o dawelwch. • Dywedwch rai o'r pethau rydych chi'n eu meddwl yn unig. • Peidiwch â gadael iddynt adael i chi siarad gormod! • Cyflwynwch rai o'ch syniadau (yn enwedig rhai hirach) mewn print.



Tabl 3.5.1. Heriau cyffredin gwaith grŵp ac atebion posibl⁵

⁵ <https://www2.le.ac.uk/offices/lli/developing-learning-and-teaching/enhance/strategies/small-group/facilitator-behaviour>



Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF, 2018) yn diffinio dysgu cydweithredol yn ddull sy'n golygu bod y disgyblion yn cydweithio ar weithgareddau a thasgau dysgu, a hynny mewn grwpiau digon bach fel bod pawb yn gallu cymryd rhan yn y dasg ar y cyd a glustnodwyd. Gall y disgyblion weithio ar dasgau ar wahân sy'n cyfrannu at ganlyniad cyffredinol, neu gydweithio ar dasg a rennir.⁶ Mae'r EEF yn dadlau bod effaith dysgu cydweithredol yn gyson gadarnhaol, ond mae'n cyfaddef bod maint y grŵp a chynllunio gwael yn gallu effeithio ar hyn. Mae'r dysgu sy'n cael yr effaith fwyaf yn digwydd pan fo'r tasgau wedi'u cynllunio'n dda ac mae yna amser i'r myfyrwyr siarad a rhyngweithio.

Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 3.5.1: Camau Dysgu Cydweithredol

Darllenwch trwy'r canllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar hyrwyddo gwaith grŵp effeithiol, sydd ar gael yma. Sut y mae hyn yn helpu gyda phryderon am y myfyrwyr hynny nad ydynt yn cyfrannu fel y dylent?



⁶ EEF (2018) Teaching and Learning Toolkit - collaborative learning. Mae'r prosiect Dysgu Cydweithredol (2018) yn rhwydwaith o athrawon sy'n rhannu adnoddau i gefnogi gwaith grŵp effeithiol a 'siarad ar gyfer dysgu,' www.collaborativelearning.org

